# Gwisgo ar gyfer y swydd - Cynllun gweithgaredd

## Disgrifiad

Prosiect dosbarth neu waith cartref i greu cyflwyniad swydd, gydag elfen gwisgo i fyny.

## Paratoi

Penderfynwch a ddylid defnyddio fel prosiect dosbarth neu dasg gwaith cartref.

Dewiswch ffynonellau priodol ar gyfer ymchwil fel gwefannau neu adnoddau wedi'u hargraffu.

Argraffwch y ddogfen dasg – un i bob dysgwr, os ydych yn ei defnyddio fel tasg gwaith cartref.

## Adnoddau

Cyfleusterau TG.

Cyflenwadau celf a chrefft, fel cardfwrdd a phaent, os yw'n dasg dosbarth.

## Geirfa

Swydd, ennill, arian, gwisg

## Cyflwyniad/cyd-destun

Cyflwynwch y dasg fel y nodir yn y ddogfen Tasg Gwisgo ar gyfer y Swydd fel gweithgaredd dosbarth neu dasg gwaith cartref. Mae'r dasg wedi'i chynllunio i annog pobl i beidio â phrynu gwisg er mwyn peidio â rhoi rhai dysgwyr dan anfantais.

Amser: 5-10 munud

### Dewis eich swydd

Gofynnwch i'r dysgwyr dreulio ychydig funudau yn dewis swydd i'w chyflwyno. Llywiwch y dysgwyr i ffwrdd o swydd os gallai'r pwnc neu'r wisg fod yn rhy gymhleth neu ddrud.

Amser: 2 funud

### Dosbarthu'r ddogfen dasg

Dosbarthwch y ddogfen dasg naill ai fel tasg gwaith cartref neu brosiect dosbarth.

Amser: 1-1.5 awr

### Ymchwil dosbarth

Caniatewch i'r dysgwyr ymchwilio i'w dewis o swydd a chasglu'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer y cyflwyniad.

Amser: 1-1.5 awr

### Creu cyflwyniad

Os yw'n brosiect dosbarth, rhowch ddigon o amser i'r dysgwyr greu eu cyflwyniadau.

Amser: 1-1.5 awr

### Creu ychwanegion

Os yw'n brosiect dosbarth, rhowch yr amser a'r adnoddau i'r dysgwyr wneud ychwanegion ar gyfer eu dillad.

Amser: 45-60 munud

### Cyflwyniad

Un ar y tro, gofynnwch i'r dysgwyr gyflwyno eu swydd.

Amser: 10-15 munud

### Casgliad

Cynigiwch adborth a gwahoddwch gwestiynau oddi wrth y dysgwyr ar ôl cwblhau'r holl gyflwyniadau. Trafodwch y cwestiynau fel dosbarth, gan gefnogi dysgwyr â gwybodaeth ychwanegol am y swyddi maen nhw wedi'u dewis.

Pan fyddwn yn oedolion, mae angen i ni ennill arian i dalu am y pethau sydd eu hangen arnom ni. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ennill arian trwy gael swydd. **Swydd yw gwaith sy'n cael ei wneud yn rheolaidd yn gyfnewid am arian.** Mae llawer o swyddi gwahanol ac rydym ni'n gallu dewis y swydd rydym ni ei heisiau.

Dewiswch swydd i wisgo i fyny a'i disgrifio mewn cyflwyniad:

- Gallai fod yn swydd yr hoffech ei chael, un diwrnod
- Gallech ddewis swydd sydd gan aelod o'r teulu
- Gallech ddewis swydd oherwydd ei bod yn ddiddorol neu'n hwyl.

Bydd angen i chi wisgo i fyny ar gyfer eich swydd ddewisol. Meddyliwch am beth fyddech yn ei wisgo i'r gwaith:

- Oes angen i chi edrych yn smart?
- Oes angen i chi fod yn gynnes neu'n gyfforddus?
- Oes angen dillad arnoch sy'n eich cadw'n ddiogel?
- A oes gwisg benodol?

Dewiswch ddillad a fyddai'n addas ar gyfer y swydd. Gallwch chi wneud ychwanegion ar gyfer eich gwisg. Meddyliwch am beth fyddech yn ei ddefnyddio neu'n ei wisgo yn y swydd hon. Dyma rai syniadau:

- Bag dogfennau o gardfwrdd
- Bathodyn enw
- Offer o gardfwrdd
- Het
- Ffôn o gardfwrdd

Pan fydd gennych wisg ac ychwanegion, bydd angen i chi greu cyflwyniad i ddweud wrth eich dosbarth am eich swydd ddewisol. Gwnewch gyflwyniad gyda'r 5 sleid hyn:

1. Sleid teitl
    - Enwch y swydd rydych chi wedi'i dewis
    - Ychwanegwch eich enw
2. Disgrifiad
    - Beth maen nhw'n ei wneud?
    - Ble maen nhw'n gweithio?
    - Pryd maen nhw'n gweithio?
3. Fy ngwisg
    - Disgrifiwch yr hyn rydych chi'n ei wisgo a pham
4. Beth sy'n dda am y swydd?
5. Beth sy'n ddrwg am y swydd?

Cyflwynwch eich swydd i'ch dosbarth a dywedwch y cyfan wrthyn nhw am y swydd yr ydych wedi'i dewis.